Lewis Edwards, 1809–87
Sefydlydd a phrifathro cyntaf Coleg y Bala (MC), athro a diwinydd

Gŵr oedd ef a greodd ddydd – diwylliant
Ein deallol gynydd;
Hyd y farn goleuad fydd
Yn awyr 'Cymru Newydd.'

Englyn coffa i Lewis Edwards gan 'Glyn Llyfnwy'

Deuai Lewis Edwards o gefndir cyffredin gwerinwyr tlawd a Christnogol a drigai ym Mhwllcenawon, Pen-llwyn, Ceredigion, ryw bum milltir o Aberystwyth. Fe'i ganed ar 27 Hydref 1809 yn fab hynaf o wyth o blant Lewis a Margaret Edwards. Bu mewn dwy ysgol ym Mhen-llwyn a gwelwyd arwyddion clir o'i allu yn gynnar drwy ei awch am wybodaeth. Symudwyd ef i ysgol Llanfihangel Genau'r-glyn er mwyn ei hyfforddi yn yr iaith Ladin, ac oddi yno aeth i ysgol John Evans yn Aberystwyth, gŵr a gafodd ddylanwad mawr arno, ac yna i ysgol John Jones yn Llangeitho. Tra oedd yn Aberystwyth fe'i gwnaed yn gyflawn aelod yn eglwys y Tabernacl ac yno y cychwynnodd bregethu. Cadwodd ysgol am ysbaid ac yna aeth i fod yn athro ar blant bonheddwr, sef John Lloyd, Pentywyn, Meidrim, yng Nghaerfyrddin.

Tra oedd yn Llangeitho fe'i cyflwynodd ei hun i waith y weinidogaeth gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, ac yng Nghymdeithasfa Llangeitho, 1829, derbyniwyd ef yn bregethwr rheolaidd. Yn y cyfnod hwn rhoddodd ei fryd ar fynd i goleg prifysgol. Ym 1831 gwnaeth gais i Gymdeithasfa Woodstock am gael mynd ond cododd gwrthwynebiad o du'r cadeirydd, y Parch. Thomas Richards, Abergwaun. Ar ddechrau'r 19eg ganrif roedd yna anniddigrwydd cyffredinol yna ynghylch gweinidogion yn cael addysg uwch mewn colegau prifysgol. Gwrthwynebwyd ei gais ar y sail ei fod yn arwydd o falchder a'i fod yn ceisio ymgyrraedd at rywbeth oedd y tu hwnt i'w safle cymdeithasol. Dechreuodd Lewis

Edwards wylo'n hidl, a phan welwyd ei ddagrau meiriolodd y gwrthwynebiad a rhoddwyd caniatâd iddo wedi'r cyfan. Aeth i goleg yn Llundain ac yna i Brifysgol Caeredin ym 1833 gan ennill gradd MA. Derbyniodd radd DD er anrhydedd ym 1865. Priododd â Jane, wyres i Thomas Charles o'r Bala, ym 1836, a ganwyd iddynt saith o blant. Ei fab, Thomas Charles Edwards, oedd Prifathro cyntaf Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Ym 1837, gyda'i frawd-yng-nghyfraith Dr David Charles, cychwynnodd ar anturiaeth fawr ei fywyd, sef sefydlu'r ysgol yn y Bala i hyfforddi gweinidogion a ddatblygodd yn Athrofa'r Methodistiaid Calfinaidd.

Bu'n Brifathro ar y sefydliad hwnnw am hanner can mlynedd. Ef oedd y cyntaf o'i genhedlaeth i weld gwerth gweinidogaeth hyfforddedig ac aeth ati i argyhoeddi ei enwad o hynny. Yn dilyn penderfyniad yng Nghymdeithasfa'r Wyddgrug ym 1856 aethpwyd ati i sefydlu cronfa sefydlog tuag at waith yr Athrofa a llwyddwyd i godi'r swm enfawr o £26,000.

Fe ddaeth yn arweinydd amlwg o'r Cyfundeb a'i ddatblygu i fod yn llawer mwy Presbyteraidd ei natur. Ystyrid ef yn bregethwr mawr yn ei ddydd, a gwelodd werth y cyfnodolion fel cyfrwng i ddylanwadu ar bobl Cymru a'u haddysgu. Bu'n olygydd *Yr Esboniwr*, cynorthwyodd i gyhoeddi'r cylchgrawn eithriadol ddifyr hwnnw *Y Geiniogwerth*, a bu'n allweddol yn y broses o gychwyn *Y Traethodydd* gyda Thomas Gee a Roger Edwards. Yr oedd Lewis Edwards yn ŵr dylanwadol mewn cyfnod pwysig yn hanes yr enwadau yng Nghymru a chenedl y Cymry, ac fe gyfrannodd ei lyfrau, megis *Athrawiaeth yr Iawn*, *Traethodau Llenyddol*, *Traethodau Duwinyddol*, *Hanes Duwinyddiaeth*, a *Person Crist*, at ddatblygiadau diwinyddol a beirniadaeth lenyddol ei oes. Bu farw 19 Gorffennaf 1887, a chladdwyd ef ym mynwent Llanycil gerllaw bedd Thomas Charles.